

Polisi Cymorth Cyntaf

Personau Penodedig yr ysgol ynglŷn â Chymorth Cyntaf yw: Mrs Ann Mererid Jones, Mr Ian Arwel Jones a Mrs Caroline Davies.

Mae ganddynt dystysgrif hyfedredd dilys hyd: Medi 2014

Rydym fel ysgol yn dilyn canllawiau Gwynedd – “Cymorth Cyntaf mewn Ysgolion” sydd i’w cael yn y ffeil Polisi Anghenion Meddygol Mewn Ysgolion (Cyngor Gwynedd)

Mae blychau Cymorth Cyntaf i’w cael yn y manau hyn:

	Lleoliad Blwch	Staff Cymwys
Ysgol Ganol:	Derbynfa Ystafell GaR Ystafell Baratoi Gwyddoniaeth Labordy Cemeg Labordy Gwyddoniaeth Labordy Ffiseg Labordy Bioleg	AMJ
Ysgol Uchaf:	Ystafell MA Ystafell UF5	
Bloc Technoleg:	DT1 DT2	
DT3	DT4	
Y Gampfa:	2 focs 2 focs symudol	IAJ / CD
Y Gegin:	1 bocs	

Yr athrawon uchod sydd yn gymwys sydd yn gyfrifol am ofalu fod y bocsys yn y lleoedd uchod ac yn cynnwys yr eitemau angenrheidiol. Dylai’r athrawon adael i AMJ wybod pan fydd angen mwy o stoc.

Pan ddigwydd damwain, bydd yr ysgol yn:

- Trin yr anaf yn y modd y gwelant orau
- Os bydd yr anaf yn un gwaeth, cysylltir â’r rhieni (neu’r person cyswllt agosaf)
- Byddwn yn cysylltu yn syth gyda’r gwasanaethau brys pan gyfyd yr angen am hynny yn nhyb yr athrawon.
- Cedwir cofnod o ddamweiniau difrifol fel a ganlyn:
- Llenwir **Ffurflen Pink Damwain 1 ‘Adroddiad am Ddamwain neu Ddigwyddiad sydd yn achosi Mân Anafiadau neu Anafiadau Difrifol i Ddisgybl’** os bydd yr anaf yn golygu bod yr unigolyn yn gadael safle’r ysgol am unrhyw reswm e.e. archwiliad neu driniaeth feddygol, mynd adref am gysur ayyb, neu fod triniaeth yn cael ei weinyddu yn yr ysgol , neu pan fo’r anaf wedi ei achosi gan ddiffyg (neu ddiffyg posib). Rhaid gyrru’r ffurflen hon o fewn 24 awr i’r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, Adran Adnoddau Dynol, Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch, Swyddfa’r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd.
- Llenwir ffurflen **Adrodd am y Ddamwain:**
- os bydd aelod o staff yn absennol o’i (g/waith am fwy na thridiau o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith,
- os bydd meddyg yn ardystio clefyd galwedigaethol penodol

- os bydd marwolaeth, anaf difrifol neu ddigwyddiad peryglus. (Os bydd marwolaeth neu anaf mawr, mae'n ofyniad cyfreithiol i roi adroddiad o fewn 24 awr i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch).
- Llenwir **Llyfr Damweiniau i Weithwyr a Staff melyn (HS11)** os digwydd damwain i staff neu weithwyr ar y safle.